



Refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad ar farnau'r Comisiwn Etholiadol ar y
cwestiwn refferendwm arfaethedig

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Cynnwys

1	Cefndir	1
	Ymgynghoriad gan yr Ysgrifennydd Gwladol	1
2	Y cwestiwn refferendwm mewn cyd-destun	4
	Cymhlethdod y pwnc	4
	Lefel isel o ddealltwriaeth ymysg y cyhoedd	5
	Gwybodaeth i bleidleiswyr ynghylch y refferendwm	6
3	Beth yw barn y cyhoedd	7
	Meysydd allweddol yr ystyriwyd yn ein hymchwil o farn y cyhoedd	7
	Crynodeb o'r hyn y dysgwyd o'n hymchwil	8
4	Barnau pleidiau sydd â diddordeb	12
	Ydy'r cwestiwn arfaethedig yn gyfreithiol?	12
	Defnyddio rhagarweiniad	14
	Beth mae'r cwestiwn yn ofyn: materion cyfansoddiadol	14
	Esiampiau o 'feysydd sydd wedi'u datganoli'	17
5	Hygyrchedd	19
	laith blaen	19
6	Ein hasesiad o'r cwestiwn	22
	Ein casgliadau	22
	Yr ymatebion	24
	Ein hargymhellion	25
	Suggested redraft (English)	28
	Ein cynnig ar ail ddrafft	29
7	Atodiadau	
	Atodiad A 'Datganiad a chwestiwn blaenorol' y bu Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ymgynghori â ni amdano	31
	Atodiad B 'Ein dull o asesu pa mor ddealladwy yw cwestiynau refferendwm' a 'Canllawiau ar asesu cwestiwn refferendwm' Y Comisiwn Etholiadol, Tachwedd 2009	32
	Atodiad C Rhestr o bleidiau sydd â diddordeb a roddodd eu barnau i ni drwy ohebiaeth neu mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar gyfer y diben	35

1 Cefndir

Ymgynghoriad gan yr Ysgrifennydd Gwladol

1.1 Ymgynghorodd Y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillian AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, â'r Comisiwn Etholiadol ar 23 Mehefin 2010 ynghylch y 'Datganiad a Chwestiwn Blaenorol' i gynnal refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r datganiad a'r cwestiwn wedi cael eu hatodi fel Atodiad A i'r adroddiad hwn.

1.2 Corff annibynnol yw'r Comisiwn Etholiadol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd y Deyrnas Unedig. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda.

1.3 Mewn refferendwm, rydym yn gyfrifol am:

- roi ein barnau ar y cwestiwn refferendwm
- gofrestru ymgyrchwyr sydd eisiau gwario symiau sylweddol yn y refferendwm
- benodi prif grwpiau ymgyrchu, lle bo'n briodol, ar gyfer pob canlyniad
- roi grantiau i brif grwpiau ymgyrchu sy'n cael eu pennu gennym o fewn cyfyngiadau statudol
- fonitro ac adrodd ar wariant ar yr ymgyrch
- adrodd ar weinyddu'r refferendwm

1.4 Cadeirydd y Comisiwn, neu rywun mae hi'n penodi, yw'r Prif Swyddog Cyfrif mewn refferendwm.

Fframwaith cyfreithiol

1.5 Pan fo cwestiwn refferendwm yn cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth eilaidd, fel y bydd yn yr achos hwn, mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau, a Refferenda 2000¹ yn rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i:

- ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ar eiriad y cwestiwn refferendwm
- sicrhau bod hyn yn cael ei wneud cyn fo'r ddeddfwriaeth eilaidd yn cael ei gosod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig.
- gyflwyno adroddiad gerbron Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi sy'n nodi unrhyw farnau ynghylch pa mor ddealladwy yw'r Cwestiwn y mae'r

¹ rhan 104(4)

Comisiwn Etholiadol wedi eu mynegi, ar yr un pryd ag y mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno.

1.6 Yn ychwanegol, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006², mae gofyn:

- I'r Ysgrifennydd Gwladol i anfon copi o'r adroddiad i'r Prif Weinidog dim hwyrach na'r amser pan fo barnau'r Comisiwn yn cael eu gosod gerbron y Senedd.
- I'r Prif Weinidog i gyflwyno copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Cyhoeddi ein barnau

1.7 Fel y corff annibynnol sy'n gyfrifol am roi ein barnau ar y cwestiwn refferendwm, rydym eisiau sicrhau fod ein dull yn un agored a thryloyw. Fel arfer, rydym yn cyhoeddi adroddiadau ar bob mater y mae gennym gyfrifoldeb amdany'n nhw. Yn unol â'r arfer hwnnw, rydym yn cyhoeddi'r adroddiad hwn ar ein barnau ar y cwestiwn refferendwm.

Y broses o asesu cwestiwn

1.8 Mae gennym ddyletswydd i ystyried pa mor ddealladwy yw cwestiwn refferendwm. Rydym eisiau sicrhau bod y cwestiwn yn un sy'n gallu cael ei ddeall gan bleidleiswyr, fel eu bod nhw'n gwybod am beth maen nhw'n pleidleisio.

1.9 Wrth gyfeirio at y 'cwestiwn refferendwm' yn yr adroddiad hwn, rydym yn golygu'r rhagarweiniad, y cwestiwn a'r ymatebion. Os oes gennym sylwadau sy'n berthnasol i'r rhagarweiniad, i'r cwestiwn neu i'r ymatebion, rydym yn gwneud hyn yn glir.

1.10 Cyhoeddwyd hoff ddull y Comisiwn o asesu cwestiynau refferendwm ac o'u canllawiau diwygiedig o asesu cwestiynau ym mis Tachwedd 2009. Mae'r rhain wedi cael eu hatodi fel Atodiad B.

1.11 Rydym wedi dilyn ein hoff ddull cyhoeddedig o asesu cwestiynau refferendwm drwy:

- gynnal ymchwiliad o farn y cyhoedd drwy grwpiau ffocws a chyfweiliadau trwyadl
- ysgrifennu at bleidiau sydd â diddordeb (yn cynnwys y prif bleidiau gwleidyddol) ac ymgyrchwyr posib i glywed eu barnau, a chynnig cynnal cyfarfodydd i glywed ganddynt.
- chwilio am gyngor gan arbenigwyr ar iaith blaen a hygyrchedd, a gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

² Atodlen 6, rhan 3

1.12 Mae adroddiad o'n darganfyddiadau o'n hymchwil o farn y cyhoedd, yn cynnwys y fethodoleg a ddefnyddiwyd, ar gael ar ein gwefan.³

1.13 Mae rhestr o bleidiau sydd â diddordeb, a roddodd eu barnau i ni drwy ohebiaeth neu mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar gyfer y diben, wedi cael ei hatodi fel Atodiad C. Mae'r barnau rydym wedi'u derbyn wedi cael eu crynhoi a'u cyfeirio atynt yn yr adroddiad hwn lle bo'n berthnasol. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser a gymerwyd gan unigolion a sefydliadau i roi eu barnau i ni.

Graddfeydd amser

1.14 Cytunodd yr Ysgrifennydd Gwladol y dylai'r Comisiwn gael yr amser sydd ei angen i ymgymryd â'n hoff ddull o asesu'r cwestiwn refferendwm. Yn unol â'n dull cyhoeddedig, fe soniom wrth yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai hyn yn cymryd tua 10 wythnos i'w gyflawni.

1.15 Mae pwnc y refferendwm yn un cymhleth i'w egluro. Rydym wedi bod yn ymrwymedig i roi barnau adeiladol sy'n seiliedig ar dystiolaeth glir fydd yn cynorthwyo i sicrhau bod y cwestiwn fwyaf clir posib yn cael ei gyflwyno i bleidleiswyr. Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi'r amser angenrheidiol i ni i gynnal yr asesiad yn drylwyr.

1.16 Fe gychwynnom ar ein proses o asesu'r cwestiwn yn union ar ôl derbyn y cwestiwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 23 Mehefin 2010. Yr adroddiad hwn yw canlyniad ein proses o asesu'r cwestiwn.

Cwmpas ein gallu i roi barn ar 'ddeallusrwydd'

1.17 Rydym yn dehongli ein gallu i roi barn ar 'ddeallusrwydd' fel mynd ymhellach nag edrych yn syml a yw pobl yn deall yr iaith y defnyddir yn y cwestiwn refferendwm. Mae gennym bwerau eang i gynnig ei fod yn cael ei ddrafftio fel arall, neu i gynnig awgrymiadau ynghylch sut gallai cwestiwn a rhagarweiniad arbennig gael eu hailgyfansoddi.

1.18 Fodd bynnag, dylid cyfyngu'r cynigion hyn i newidiadau o ran iaith neu

strwythur ac i eiriad y cwestiwn. Does gennym ni ddim pwerau i gynnig addasiadau a fyddai'n newid sylwedd y cwestiwn neu i gyflwyno ffactorau newydd a allai newid natur y ddadl.

³ www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0012/102018/GfK-NOP-NAW-Referendum-Report.pdf

2 Y cwestiwn refferendwm mewn cyd-destun

Cymhlethdod y pwnc

2.1 Y mater pennaf a ddaeth i'r amlwg yn ein proses o asesu'r cwestiwn oedd cymhlethdod y pwnc, yn nhermau'r cyd-destun yn ogystal â'r cynnig. Mater o broses gyfansoddiadol yw pwnc y refferendwm, sy'n gyfarwydd i ddim ond ychydig o bobl wybodus yn unig.

2.2 Nid yw'r mater hwn yn un newydd, ac mae wedi cael ei drafod yn helaeth gan eraill. Er enghraifft, yn ôl Confensiwn Cymru Gyfan, a sefydlwyd i ddarganfod barnau pobl ynghylch cyflwyno mwy o bwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: '...daeth yn amlwg nad oedd llawer yn deall cymhlethdodau'r trefniadau cyfredol. Doedd pobl ddim yn deall yn union pwy oedd â'r pwerau i wneud beth a sut oedd deddfau'n cael eu llunio.'⁴

2.3 Cyflwynwyd sylwadau ar gymhlethdod y pwnc yn y wasg a'r cyfryngau yn ystod ein proses asesu, gan fod rhai pobl oedd wedi cyflwyno sylwadau i ni hefyd wedi rhyddhau eu barnau i'r parth cyhoeddus.⁵

2.4 Mae rhai uwch academwyr a sylwebwyr wedi cyflwyno eu barnau i ni, ac maen nhw wedi nodi nad yw'r cwestiwn sydd wedi cael ei ddrafftio'n cynrychioli'r sefyllfa gyfansoddiadol yn gywir ac/nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ar y refferendwm. Mae'r sylwadau'n amrywio o ran sut dylai'r cwestiwn drafod y sefyllfa gyfansoddiadol. Byddai rhai yn rhoi mwy o bwyslais ar gyflymder y newid, tra byddai eraill yn gweld y canlyniad cyfansoddiadol a'r rôl lai i Senedd y Deyrnas Unedig fel rhywbeth yr un mor arwyddocaol o leiaf.

2.5 Roedd dau o sylwadau a gyflwynwyd gan brif academwyr o'r farn y byddai'r cwestiwn refferendwm yn agored i her gyfreithiol oni bai y byddai'n cyfeirio at ddarpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn y derminoleg gywir.

2.6 Rydym yn delio gyda'r pwyntiau allweddol a gyflwynwyd i ni'n fwy manwl isod. Rydym yn tynnu sylw at y materion hyn yn gynnar yn ein hadroddiad, i

⁴ www.allwalesconvention.org Sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i geisio canfod barnau pobl am bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Adroddiad Tud 7

⁵ www.allwalesconvention.org Sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i geisio canfod barnau pobl am bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Adroddiad Tud 7

bwysleisio fod y pwnc mewn cwestiwn yn bell o fod yn syml. Yn fwyfwy, hyd yn oed ymysg y bobl wybodus hynny sy'n deall y materion cyfansoddiadol, ceir dadl ynghylch faint o bwyslais y dylai gael ei roi iddynt.

Lefel isel o ddealltwriaeth ymysg y cyhoedd

2.7 Gwelwyd bwlch sylweddol ar yr un llaw, rhwng dealltwriaeth y cyhoedd am bwnc y refferendwm ac o'r ddadl academaidd a gwleidyddol lefel uchel ynghylch goblygiadau cyfansoddiadol y cwestiwn refferendwm ar y llaw arall.

2.8 Ar y cyfan, roedd gan y rhai hynny a gymrodd ran yn ein hymchwil o farn y cyhoedd lefel isel o ymwybyddiaeth gyhoeddus ynghylch y ffaith fod refferendwm ar bwerau deddfu'r Cynulliad yn mynd i gael ei gynnal; beth yw pwnc y refferendwm neu, yn wir, beth yw refferendwm.

2.9 Er hynny, daeth y rhai hynny nad oedd yn gwybod bod refferendwm yn mynd i gael ei gynnal hyd yn oed, i'r ymchwil gyda llawer o gamsyniadau ynghylch beth fyddai'r cwestiwn yn ofyn iddynt. Roedd rhai pobl wedi disgwyl y byddai'r bleidlais yn trafod newid mwy sylweddol. Roeddynt yn disgwyl i'r refferendwm roi mwy o bwerau i'r Cynulliad nag sy'n bosib iddo'i gael ar hyn o bryd. Roedd rhai pobl yn meddwl mai pwrpas y refferendwm yw rhoi mwy o bwerau codi treth i'r Cynulliad neu i roi annibyniaeth i Gymru.

2.10 Er y gallai'r camsyniadau hyn gael eu datrys, i ryw raddau, drwy ymgyrchu a drwy gyflwyno gwybodaeth i etholwyr cyn y refferendwm, mae ein hymchwil wedi dangos yn glir nad yw'r cwestiwn, fel y mae ar hyn o bryd, yn rhoi digon o ystyriaeth i'r camsyniadau hyn.

2.11 Dechreuodd rhai unigolion a gymrodd ran yn ein hymchwil, oedd â dealltwriaeth dda o bwnc y refferendwm cyn mynychu'r ymchwil, amau eu dealltwriaeth ar ôl darllen y cwestiwn. Yn yr achosion hyn, doedd y cwestiwn ddim yn cefnogi na'n atgyfnerthu'r wybodaeth gyfredol sydd gan bobl fwy gwybodus.

2.12 Mae hyn yn cwestiynu addasrwydd y cwestiwn yn ei ffurf bresennol a'n dangos nad ymwybyddiaeth wael o ddatganoli ac o bwerau'r Cynulliad oedd yr unig reswm i bobl gamddehongli'r cwestiwn refferendwm. Effeithiodd strwythur y cwestiwn a'r geiriau a'r brawddegau penodol a ddefnyddiwyd ar eu dealltwriaeth hefyd.

2.13 Nid oedd posib gwybod sut fyddai'r cwestiwn yn gweithio gyda phleidleiswyr heb ei brofi'n drylwyr. Mae ein hymchwil o farn y cyhoedd wedi canfod materion gyda'r cwestiwn drafft a fyddai wedi bod yn anodd eu rhagweld fel arall. Nid yw pwnc y refferendwm yn rhwydd i'w ddisgrifio mewn iaith pob dydd, a doedd gan y rhai hynny a luniodd y cwestiwn ddim y fantais o gyfeirio at

ymchwil gan ddefnyddwyr. Mae ein barnau ar y cwestiwn yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd nawr ar gael o'r holl ffynonellau rydym wedi'u defnyddio.

Gwybodaeth i bleidleiswyr ynghylch y refferendwm

2.14 Mae'r refferendwm yn ymgyrchu am bleidlais 'ydw'/'nac ydw'; ac mae ganddo rôl bwysig i'w chwarae o ran hysbysu'r cyhoedd ynghylch y materion yn y refferendwm. Yr ymgyrchoedd yw'r ffynhonnell bennaf o ran rhoi gwybod i bleidleiswyr posib beth sydd yn y fantol, i annog pobl i bleidleisio, ac i ddylanwadu ar sut maen nhw'n pleidleisio.

2.15 Fel rhan o'r ymgyrchu fodd bynnag, gellir disgwyl y bydd dadl yn y parth cyhoeddus ynghylch y ffaith fod ymgyrchwyr yn camarwain pleidleiswyr ynghylch cynnwys y refferendwm. Mae dadl o'r fath yn rhan gyffredin o ymgyrch unrhyw etholiad neu refferendwm, ond mewn ardaloedd lle nad yw'r cyhoedd yn gwybod llawer am gynnwys y refferendwm, mae camwybodaeth gwir neu ganfyddadwy yn debygol o ddod yn fater pwysicach yn yr ymgyrch.

2.16 Mae'n debygol hefyd, y bydd amlygrwydd cyfyngedig i ymgyrch y refferendwm yn y cyfryngau y mae mwyafrif o bobl Cymru yn troi atynt. Mae'r rhan fwyaf o'r papurau newydd dyddiol sy'n cael eu prynu yng Nghymru yn rhai sy'n trafod Prydain gyfan. Disgrifiodd Confensiwn Cymru Gyfan hwy fel rhai 'oedd yn anaml yn rhoi gwybod am ddatblygiadau gwleidyddol yng Nghymru'.⁶

2.17 I bontio'r bwlch mewn gwybodaeth, mae rhai pobl wedi galw am ymgyrch wybodaeth gyhoeddus gan y Comisiwn Etholiadol.⁷ Mae'r Comisiwn yn bwriadu anfon taflen wybodaeth i'r cyhoedd ynghylch y refferendwm i bob aelwyd yng Nghymru. Bydd y daflen yn egluro beth yw'r refferendwm, yn rhoi disgrifiad byr o'i gynnwys, ac am sut i bleidleisio ynddo. Bydd y daflen yn cael ei hamseru i gyrraedd pobl sy'n pleidleisio drwy'r post yn union cyn iddynt dderbyn eu pecynnau pleidleisio drwy'r post. Fodd bynnag, er y bydd taflen o'r fath o gymorth, fel y bydd gwybodaeth ar y we, dim ond ateb rhannol fydd hyn. Oherwydd cyd-destun gofyn y cwestiwn refferendwm, bydd pleidleiswyr yn dibynnu mwy ar y rhagarweiniad fel ffynhonnell o wybodaeth nag y byddai'n ddelfrydol fel arfer.

⁶ Er enghraifft, *Western Mail* 22 Gorffennaf 2010

⁷ Er enghraifft, awgrym gan Alan Trench, Institute of Governance, Prifysgol Caeredin

3 Beth yw barn y cyhoedd

3.1 Gan ei bod ni eisiau gweld p'un ai a yw pleidleiswyr yn deall y cwestiwn refferendwm neu beidio, roeddem eisiau cael tystiolaeth gan bleidleiswyr posib eu hunain. Cynhaliwyd ymchwil gennym i weld sut oedd pobl yn ymateb i'r cwestiwn, a'n ei ddeall.

3.2 Gellir lawrlwytho adroddiad llawn yr asiantaeth ymchwil GfK NOP, a gynhaliodd yr ymchwil drosom, oddi ar ein gwefan.⁸ Mae'r adroddiad yn disgrifio hefyd pwy gymrodd ran yn yr ymchwil ac ym mhle; roeddem eisiau clywed gan bobl o ystod eang o gefndiroedd, o oedrannau gwahanol, ac sy'n byw mewn rhannau gwahanol o Gymru.

3.3 Cynorthwyodd yr ymchwil ni i ddarganfod faint oedd pobl yn deall am y cwestiwn arfaethedig, eu hagweddau tuag ato, a'r rhesymau maen nhw'n meddwl neu'n teimlo fel y maent amdano. Yn ogystal, cynorthwyodd yr ymchwil ni i archwilio sut gallai'r cwestiwn gael ei wneud yn fwy dealladwy. Canolbwyntiodd yr ymchwil ar y cwestiwn ei hun, ac ar sut mae wedi cael ei ysgrifennu, yn hytrach nag ar sut fyddai pobl yn pleidleisio.

Meysydd allweddol yr ystyriwyd yn ein hymchwil o farn y cyhoedd

- **Cyflawniad** – gofynnwyd i gyfranogwyr i gyflawni tasg ysgrifenedig unigol. Roedd hyn yn cynnwys ateb y cwestiwn fel ei fod yn un go iawn, a marcio unrhyw eiriau neu frawddegau yr oeddynt yn meddwl oedd yn anodd eu deall.
- **Ystyr llythrennol** – trafododd y rhai hynny a gymrodd ran yr hyn roeddynt yn feddwl oedd y cwestiwn yn ofyn ac unrhyw anawsterau oedd ganddynt gyda'r cwestiwn.
- **Ystyr cyd-destunol** – rhestrodd y rhai hynny a gymrodd ran yr hyn roeddynt yn ddeall oedd y rhesymau ar gyfer cynnal y refferendwm, ac effaith y newid arfaethedig.
- **Gwelliannau** - ystyriodd y rhai hynny a gymrodd ran pa welliannau y byddan nhw'n wneud i eiriad y cwestiwn, a thrafodwyd eu cynigion.

⁸ www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0012/102018/GfK-NOP-NAW-Referendum-Report.pdf

Crynodeb o'r hyn y dysgwyd o'n hymchwil

3.4 Gweler i ganlyn crynodeb o'r pwyntiau allweddol a ddaeth i'r golwg. Mae'r adroddiad gan GfK NOP yn cynnwys crynodeb gweithredol llawn.

Ymwybyddiaeth o'r cefndir

3.5 Doedd pobl ddim yn deall y materion cefndirol yn dda na'r derminoleg a ddefnyddiwyd yn y cwestiwn. Roedd hyn yn cyfyngu ar eu dealltwriaeth ohono. Er enghraifft, doedd llawer ddim yn gyfarwydd gyda'r syniad o ddatganoli a'n ymdrech i ddeall y term 'meysydd sydd wedi'u datganoli' sy'n cael ei ailadrodd yn y cwestiwn. Er bod pobl yn fwy ymwybodol o fodolaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru nag o'r syniad o ddatganoli, doedd llawer o'r rhai hynny a gymrodd ran ddim yn deall pwerau'r Cynulliad. Ac eithrio rhai mentrau proffil uchel, fel presgripsiynau am ddim, y gostyngiad mewn ffioedd tiwtora a nofio am ddim, doedd y rhan fwyaf o bobl ddim yn siŵr ym mha feysydd polisi oedd gan y Cynulliad bwerau deddfwriaethol drostynt. Yn fwyfwy, doedd llawer dim yn ymwybodol o sut mae'r Cynulliad yn llunio deddfau, a doeddynt ddim yn gwybod fod y Cynulliad angen cael cytundeb gan Senedd y Deyrnas Unedig ar rai materion o fewn meysydd sydd wedi'u datganoli i ddeddfu.

3.6 Roedd rhai pobl yn ymwybodol fod refferendwm ar bwerau'r Cynulliad i fod i gael ei gynnal yn 2011. Roedd y bobl hyn yn tueddu i fod yn hŷn (35+), wedi pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad o'r blaen, a'n fwy tebygol o ddilyn materion gwleidyddol Cymreig yn y newyddion. Roedd gan y rhai hynny oedd yn siarad Cymraeg lefelau tipyn uwch o ymwybyddiaeth ynghylch y refferendwm sydd i ddod o'i gymharu â phobl sydd ddim yn siarad Cymraeg.

3.7 Un canlyniad o'r diffyg ymwybyddiaeth gan y rhai hynny a ymatebodd ynghylch datganoli, pwerau'r Cynulliad a phwnc y refferendwm sydd i ddod, oedd y daethant i'r ymchwil gyda llawer o gamsyniadau ynghylch yr hyn y byddai'r cwestiwn yn ei ofyn iddynt. Er enghraifft, roedd rhai'n tybio mai ynghylch annibyniaeth i Gymru oedd y cwestiwn neu ynghylch y cynnydd ym mhwerau codi treth y Cynulliad, ac fe atebon nhw ef yn unol â hyn.

3.8 Rhywbeth pwysig a ganfuwyd o'n hymchwil oedd hyn: os oedd gan bobl gamsyniadau ynghylch pwnc y refferendwm, doedd y rhagarweiniad, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, ddim yn cael gwared â'r rhain.

Dehongli'r cwestiwn

3.9 Ar ôl darllen y cwestiwn refferendwm, gallai'r rhan fwyaf o'r rhai hynny a gymrodd ran yn yr ymchwil weld ei fod yn gofyn iddynt i benderfynu p'un ai y dylid cynyddu pwerau'r Cynulliad i lunio deddfau. Fodd bynnag, cafodd y rhan fwyaf anhawster o ran canfod union natur y cynnydd yn y pwerau deddfu a

gynigir. Cafwyd ystod o ddehongliadau gan y rhai hynny a gymrodd ran gyda graddau amrywiol o gywirdeb.

3.10 Ni heriodd y cwestiwn y rhai hynny oedd â chamsyniadau cyn cymryd rhan yn yr ymchwil. Roedd rhai o'r farn mai ystyr y cwestiwn oedd ehangu cwmpas pwerau'r Cynulliad drwy gyflwyno meysydd newydd sydd wedi'u datganoli. Roedd eraill yn meddwl fod y cwestiwn yn gofyn am gynyddu pwerau'r Cynulliad mewn ardaloedd difreintiedig neu rai sy'n datblygu yng Nghymru. Fe wnaethon nhw gamddehongli'r geiriau 'meysydd sydd wedi'u datganoli' a'u cymryd i olygu 'ardaloedd difreintiedig' neu 'ardaloedd sy'n datblygu'.

3.11 Pleidleiswyr hŷn y Cynulliad (35+) oedd yn ymddangos i ddeall yr hyn roedd y cwestiwn yn ofyn fwyaf. Doedd dim gwahaniaeth enfawr yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg a Saesneg oddi fewn y categori hwn. Fe sylweddolion nhw fod y Cynulliad angen cael cytundeb gan Senedd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd i ddeddfu ar faterion penodol, a bod y cwestiwn yn gofyn p'un ai y dylid cael gwared â'r angen am gytundeb.

3.12 Dechreuodd rhai unigolion oedd â dealltwriaeth dda o bwnc y refferendwm cyn mynychu'r ymchwil ddod i amau'r ddealltwriaeth hyn ar ôl darllen y cwestiwn. O ganlyniad, nid ymwybyddiaeth wael o ddatganoli a phwerau'r Cynulliad oedd yr unig reswm pam oedd pob yn camddehongli neu'n camddeall y cwestiwn refferendwm. Cafodd strwythur y cwestiwn, yn ogystal â geiriau a brawddegau unigol, effaith hefyd.

Strwythur y cwestiwn

3.13 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai hynny a gymrodd ran yn credu y dylid cadw strwythur presennol y cwestiwn, yn cynnwys rhagarweiniad. Daethpwyd i'r casgliad y dylid cadw'r elfennau canlynol:

- teitl byr a chryno
- disgrifiad o'r trefniadau deddfwriaethol cyfredol
- arwydd o sut fyddai trefniadau deddfwriaethol yn cael eu heffeithio os rhoddwyd pleidlais ydw / nac ydw
- cwestiwn byr a chllir

3.14 Fodd bynnag, daethpwyd o hyd i nifer o broblemau strwythurol ac mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- hyd cyffredinol
- hyd a chymhlethdod y frawddeg
- gwahaniaeth rhwng senarios y presennol a rhai'r dyfodol

3.15 Ar draws yr esiampl, roedd y rhai hynny a gymrodd ran yn credu bod y cwestiwn cyffredinol yn rhy hir. Wrth ei ddarllen, roedd llawer yn sylwi eu bod nhw wedi colli ystyr y cwestiwn a'u bod nhw'n gorfod darllen rhannau unigol sawl gwaith cyn eu bod nhw'n gallu deall yr ystyr.

3.16 Derbyniwyd sawl cwyn ynghylch y ffaith fod y cwestiwn yn ailadrodd, a thybiodd pobl a oedd yn bosib cael gwared â'r rhannau oedd yn cael eu hailadrodd.

3.17 Wrth ddarllen y rhagarweiniad, roedd rhai yn ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhwng y trefniadau deddfwriaethol presennol a'r trefniadau posib yn y dyfodol (hynny yw, yn dilyn canlyniad y refferendwm). Er bod y rhan fwyaf yn deall bod dwy frawddeg gyntaf paragraff un yn disgrifio'r trefniadau presennol, roedd rhai yn credu bod y drydedd frawddeg yn disgrifio trefniant posib yn y dyfodol.⁹

3.18 Gwnaethpwyd y broses o wahaniaethu rhwng y trefniadau presennol a'r trefniadau posib yn y dyfodol yn anoddach fyth i lawer o ddarllenwyr oedd yn siarad Cymraeg, o ganlyniad i'r ffaith fod y geiriau a ddefnyddiwyd yn nhrydedd frawddeg paragraff un ('Caiff y Cynulliad ennill mwy o bwerau') yn aml yn anghyfarwydd iddynt.

Gosodiad y cwestiwn

3.19 Ni soniwyd am unrhyw anawsterau yn yr ymchwil gyda gosodiad y cwestiwn. Roedd pawb o'r farn fod rhannu'r cwestiwn yn deitl, yn rhagarweiniad, yn gwestiwn a'n focsys atebion yn hawdd i'w ddilyn, ac roedd pawb yn meddwl bod rhannu'r dudalen yn fersiynau Cymraeg a Saesneg yn briodol.

Amhleidioldeb y cwestiwn

3.20 Ar ôl gofyn iddynt i edrych am unrhyw elfennau arweiniol, canfuwyd gan rai pobl yr hyn a allai gael eu hystyried fel elfennau arweiniol. Y prif bwynt roedd rhai pobl yn ei ystyried yn arweiniol oedd y ffaith fod y cwestiwn wedi'i eirio'n nhermau:

'Do you agree...'/ 'Ydych chi'n cytuno...'

3.21 Roeddynt yn meddwl nad oedd yn amhleidiol oherwydd mewn gwirionedd, roedd yn gofyn 'Ydych chi'n cytuno gyda mi...?' Roeddynt yn ystyried bod hyn yn gwneud 'Dydw i ddim yn cytuno' yn opsiwn llai rhwydd i'w ddewis.

3.22 Roedd pobl hefyd o'r farn nad oedd cyflwyniad cymharol y ddau opsiwn yn gytbwys. Roedd disgrifiad yr ymateb 'cytuno' yn ymddangos yn fwy syml na disgrifiad yr ymateb 'dydw i ddim yn cytuno'. Roeddynt yn meddwl fod hyn yn eu hannog nhw i edrych ar yr ymateb 'dydw i ddim yn cytuno' yn llai ffafriol.

3.23 Roedd pobl hefyd o'r farn fod cyflwyno'r ymateb 'dydw i ddim yn cytuno' yn cael ei ailadrodd mewn ffordd negyddol. Roeddynt yn ei weld fel rhywbeth

⁹ Mae testun y rhagarweiniad a'r cwestiwn wedi cael eu hatodi fel Atodiad A.

oedd yn ailadrodd beth oedd eisoes ym mharagraff cyntaf y rhagarweiniad, gyda geiriad tipyn y wahanol, yn hytrach nag un negatif.

Cywirdeb yr ymateb

3.24 Roedd y mwyafrif o'r bobl oedd yn profi'r cwestiwn fel rhan o'n hymchwil yn gallu pleidleisio yn unol â'u bwriadau. Dywedodd hyd yn oed y rhai hynny nad oedd wedi deall y cwestiwn wrth ei ddarllen i gychwyn, eu bod nhw wedi rhoi'r ymateb y byddant wedi'i roi pe byddent wedi deall y cwestiwn yn llwyr o'r cychwyn.

3.25 Er bod hynny'n ymddangos yn galonogol, mae ochr negyddol i hyn hefyd. Er bod y rhan fwyaf o bobl wedi gallu pleidleisio yn unol â'u bwriadau, mae'n golygu y byddai llawer wedi cerdded i ffwrdd ar ôl darllen y cwestiwn hwn gyda chanfyddiad anghywir o ystyr y refferendwm ac o'i ganlyniadau posib.

3.26 Dywedodd nifer fechan o bobl nad oeddynt wedi gallu ateb y cwestiwn yn unol â'u bwriadau. I gychwyn, roedd y bobl hyn yn credu fod y cwestiwn yn gofyn am fwy o gynnydd ym mhwerau'r Cynulliad nag yr oedd yn gofyn mewn gwirionedd (un' ai annibyniaeth i Gymru neu bwerau codi treth). Nid oeddynt eisiau i bwerau'r Cynulliad gael eu cynyddu i'r graddau hyn, ac roeddynt wedi rhoi 'Nac ydw' fel ateb.

3.27 Fodd bynnag, pe byddent wedi deall gwir ystyr y cwestiwn a'r cyfyngiadau yn y pwerau y mae pobl yn pleidleisio drostynt, dywedont y byddent wedi rhoi 'Ydw' fel ateb. Mae hyn yn dangos y gallai'r cwestiwn achosi pleidleiswyr sydd o blaid dipyn o gynnydd ym mhwerau'r Cynulliad (yn unol â phwnc y refferendwm), i beidio â phleidleisio yn unol â'u bwriadau.

4 Barnau pleidiau sydd â diddordeb

4.1 Ysgrifennom at bleidiau sydd â diddordeb (yn cynnwys y prif bleidiau gwleidyddol) ac ymgrychwr posib i ganfod eu barnau. Hefyd, cynigiom gynnal cyfarfodydd i glywed ganddynt. Mae'r rhestr o'r rhai hynny a wnaeth ymateb a rhoi eu barnau wedi cael eu hatodi fel Atodiad C. Yr hyn sy'n dilyn yw crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd.

Ydy'r cwestiwn arfaethedig yn gyfreithiol?

4.2 Tynnodd ddau o'r sylwadau sylw at b'un ai a oedd y cwestiwn refferendwm arfaethedig gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cynnwys y fframwaith ar gyfer y refferendwm. Dywedodd Keith Patchett, Athro Emeritws y Gyfraith ym Mhrifysgol Cymru ac Alan Trench, o'r Institute of Governance, Prifysgol Caeredin, ill dau fod y cwestiwn arfaethedig yn defnyddio iaith oedd ddim yn gyson gydag iaith Deddf Llywodraeth Cymru.

4.3 Oherwydd bod yr ymateb gan Alan Trench ar gael yn gyhoeddus ar ei flog, ac wedi cael ei adrodd yn y *Western Mail*¹⁰, sylwebodd dau berson arall ar y materion a godwyd ganddo. Roedd Cynog Dafis (a ysgrifennodd ar lefel bersonol) a Laura McAllister, Athro Llywodraethu ym Mhrifysgol Lerpwl o'r farn, yn sgil sylwadau Alan Trench, bod angen eglurder cyfreithiol.

4.4 Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r refferendwm fod ynghylch 'a ddylai darpariaethau Deddf y Cynulliad ddod i rym'. Mae'r darpariaethau hynny wedi'u diffinio yn Neddf Llywodraeth Cymru trwy gyfeirio at y rhannau perthnasol yn y ddeddfwriaeth. Dywedodd yr Athro Patchett y gellid dadlau bod yn rhaid i gwestiwn y refferendwm ofyn I bleidleiswyr yn glir os ydynt yn cytuno y ddylid gweithredu'r cynllun fel y mae wedi'i nodi yn Rhan 4 Deddf Llywodraeth Cymru. Doedd cyfeiriad mwy cyffredinol sydd ond yn edrych am gymeradwyaeth am rym ar 'bob pwnc yn y meysydd sydd wedi'u datganoli' ddim yn ddigon penodol.

4.5 Tynnodd Alan Trench sylw at y pwynt fod y cwestiwn arfaethedig yn cyfeirio at 'areas' a 'subjects' yn hytrach na 'matters' a 'fields' Dywedodd fod hyn yn golygu fod y cwestiwn yn llai manwl gywir ac felly'n amwys.

¹⁰ *Western Mail*, 22 Gorffennaf 2010

4.6 Dywedodd Yr Athro Patchett wrthym ei fod yn gwerthfawrogi y byddai cwestiwn a fynegwyd mewn termau a oedd yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru'n fwy agos yn cyflwyno problemau ar gyfer yr etholwyr ac ar y lleiaf, y byddai angen cael ei egluro ymhellach.

4.7 Roedd Alan Trench o'r farn y byddai'n well cael dull gwahanol na'r un hynny a gynigiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Galwodd am ragarweiniad a chwestiwn byr (gan gyfeirio'n arbennig at Ran 4 a Rhan 7 Deddf Llywodraeth Cymru), sy'n cael eu cefnogi gan ymgyrch wybodaeth gyhoeddus, yn cynnwys taflen gan y Comisiwn Etholiadol.

4.8 Rydym wedi ystyried y materion a godwyd o'r sylwadau hyn gyda chyfreithwyr y Comisiwn. Yn ein barn gyfreithiol ni, er ei fod yn amlwg y dylai'r cwestiwn refferendwm fod 'ynghylch' 'pun ai a ddylai darpariaethau Deddf y Cynulliad ddod i rym, nid yw hyn yn golygu fod rhaid i'r cwestiwn nodi'r darpariaethau deddfwriaethol yn eglur. Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r cwestiwn gael ei gynnwys mewn deddfwriaeth eilaidd a gynigir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn roi barnau ar ba mor ddealladwy yw'r cwestiwn. Felly, mae'n ymddangos i ni fod Deddf Llywodraeth Cymru'n rhagweld y bydd y cwestiwn sy'n cael ei gynnig gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei gyflwyno mewn termau sy'n cael eu deall gan bleidleiswyr.

4.9 Yn ein barn ni, ni fyddai cwestiwn sy'n gofyn yn arbennig p'un ai a ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael y pwerau deddfu a sefydlwyd yn Rhan 4 ac Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei ddeall gan bleidleiswyr. Nid yw'n realistig disgwyl i bleidleiswyr i ddarllen deunydd eglurhaol i gyd-fynd â chwestiwn o'r fath, un' ai mewn rhagarweiniad hir neu mewn taflen. Er bod taflen yn gallu helpu, fel rydym wedi egluro yn y 'Cyd-destun' yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ni allai fyth fod yn ateb cyflawn. Yn yr achos arbennig hwn, mae ein hymchwil o farn y cyhoedd wedi dangos yn glir fod angen i gwestiwn a rhagarweiniad cefnogol gael eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n hygyrch i bleidleiswyr.

4.10 Cynigiwyd y cwestiwn gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac mae'n rhaid i ni dybio fod yr Ysgrifennydd Gwladol, sydd angen cydymffurfio â darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru, yn ystyried fod y cwestiwn y mae hi wedi'i gynnig yn gyfreithiol. Hoffem nodi hefyd, fod y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog yn cytuno'n gryf gydag ef, ac nad ydynt wedi codi cwestiynau ynghylch ei gyfreithlondeb, er bod ganddynt bryderon ynghylch rhan o eiriad y cwestiwn arfaethedig.

4.11 Pwysleisiodd pob person a sefydliad arall a ysgrifennodd atom ni gyda'u barnau ar y cwestiwn arfaethedig, y dylai'r cwestiwn fod yn ddealladwy i bleidleiswyr. Dywedodd nifer hefyd eu bod nhw'n cefnogi neu'n ystyried fod canllawiau'r Comisiwn ar gyfer asesu pa mor ddealladwy yw cwestiynau refferendwm yn gynorthwyol.

4.12 O ganlyniad i'r rhesymau hynny, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ba mor ddealladwy yw'r cwestiwn refferendwm sydd wedi cael ei gynnig gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Rydym yn gwneud hynny ar y sail nad oes angen i'r cwestiwn gyfeirio'n benodol at weithredu'r cynllun fel y mae wedi'i ffurfio'n Rhan 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn bod yn gyfreithlon.

Defnyddio rhagarweiniad

4.13 Roedd Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP) a 'True Wales'¹¹, ill dau yn erbyn defnyddio rhagarweiniad. Roedd y ddau yn meddwl nad oedd ei angen, oherwydd y gallai gael ei ddefnyddio i siglo bwriadau pleidleisio'r etholwyr. Roeddynt o'r farn y byddai gan ymgyrchoedd 'Ydw' a 'Nac ydw' ddigon o amser i addysgu'r etholwyr ynghylch ystyr y refferendwm.

4.14 Er ein bod ni'n cytuno mai cyfrifoldeb ymgyrchoedd 'Ydw' a 'Nac ydw' yw codi ymwybyddiaeth pleidleiswyr o'r materion sydd yn y fantol yn y refferendwm, yn yr achos arbennig hwn, rydym yn credu, am resymau sydd wedi'u hegluro'n barod, fod angen rhagarweiniad. Fe wnaeth ein hymchwil o farn y cyhoedd atgyfnerthu'n gryf dod angen cael rhagarweiniad a fyddai'n cynorthwyo pleidleiswyr i ddeall y cwestiwn refferendwm.

Beth mae'r cwestiwn yn ofyn: materion cyfansoddiadol

4.15 Cyfeiriodd cyflwyniadau i ni gan sylwebwyr academiaidd neu wleidyddol at y pwyslais a roddwyd yn y cwestiwn ar rai pwyntiau cyfansoddiadol manwl. Cafwyd barnau cryf mewn perthynas â'r pwyslais cymharol yn y rhagarweiniad a'r cwestiwn ynghylch cyflymder y newid ac ymglymiad Senedd y Deyrnas Unedig.

4.16 Roedd Syr Emyr Jones Parry, cyn Gadeirydd Confensiwn Cymru Gyfan yn feirniadol o'r testun arfaethedig. Yn arbennig, roedd o'r farn mai'r mater allweddol yn y refferendwm oedd cyflymder y newid – 'y cyflymder y dylai deddfwriaeth gynradd ddod i Gymru'. Cynigiodd gwestiwn amgen ei hun.

4.17 Gan yr adroddwyd ar farnau Syr Emyr Jones Parry yn y wasg yn ystod ein proses o asesu'r cwestiwn¹², cyflwynodd pobl eraill sylwadau ar ei farnau yn eu sylwadau i ni.

4.18 Er enghraifft, roedd Cynog Dafis yn anghytuno'n llwyr mai'r dewis allweddol i bleidleiswyr fydd 'y cyflymder y dylai deddfwriaeth gynradd ddod i Gaerdydd'. Yn ei farn ef, roedd hyn yn bychanu'r posibilïad y gallai Senedd y

¹¹ Sefydliad o blaid pleidlais 'Nac ydw'

¹² *Western Mail*, 22 Gorffennaf 2010

Deyrnas Unedig wrthod cais gan y Cynulliad i ddeddfu ar fater penodol ar hyn o bryd.

4.19 Yn ôl Yr Athro McAllister, nid ynghylch cyflymder y newid oedd y refferendwm yn unig, ond am egwyddor ymglymiad Senedd y Deyrnas Unedig yn y broses o lunio deddfau.

4.20 Roedd 'True Wales' o'r farn mai'r mater oedd 'A ddylai Senedd y Deyrnas Unedig neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio deddfau?' ac 'A ddylai Senedd y DU gael rôl mewn llunio deddfau yng Nghymru?' Nid cwestiwn o drosglwyddo pwerau ydoedd.

4.21 Rhoddodd y Sefydliad Materion Cymreig sylwadau hefyd ar sut roedd y rhagarweiniad yn trafod rôl Senedd y Deyrnas Unedig. Yn ôl y Cyfarwyddwr John Osmond, roedd defnyddio'r frawddeg 'bob yn damaid, gyda chytundeb Senedd y Deyrnas Unedig bob tro' yn gwahodd pobl i gasglu mai dyma fyddai'r ffordd gymharol, synnwyr cyffredin o ddatblygu. (I arwain pobl i gredu mai dyma'r opsiwn fwyaf dymunol). Yn ogystal â chyflwyno dadl fel rhan o'r eglurhad, ym marn y Sefydliad Materion Cymreig, doedd hyn ddim yn trafod y pwynt fod rhai pwerau yn cael eu gwrthod a bod eraill yn cymryd blynyddoedd i ddod i rym - tair blynedd mewn un enghraifft a roddwyd.

4.22 Tynnodd yr Athro Richard Wyn Jones, Cyfarwyddwr Canolfan Llywodraethu Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, sylw at y ffaith fod 'bob yn damaid' yn ailadrodd y geiriad a ddefnyddiwyd gan Gonfensiwn Cymru Gyfan. Dywedodd fod y geiriad yn awgrymu'n glir, o dan y drwydded bresennol, fod un yn symud yn y pen draw at yr un lleoliad ag y nodwyd yn Rhan 4 Deddf Llywodraeth Cymru¹³, ond ar gyflymder gwahanol. Dywedodd yr Athro Jones mai dyma oedd llawer yn disgwyl pan basiwyd Deddf Llywodraeth Cymru a hyd yn oed wrth i Gonfensiwn Cymru Gyfan gychwyn ar ei waith. Fodd bynnag, yn ei farn ef, mae'r disgwyliadau hynny wedi bod yn hollol anghywir. Dywedodd na ellid cymharu fersiwn ddiweddaraf Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru¹⁴ gydag Atodlen 7¹⁵ a daethpwyd i'r casgliad fod cyfeiriad y teithio, heb sôn am y lleoliad, yr un fath. Yn ei farn ef, roedd y geiriad 'bob yn damaid' yn gamarweiniol erbyn hyn.

4.23 Rydym yn credu fod y cwestiwn arfaethedig wedi'i fwriadu i gael ei ddeall gan bleidleiswyr fel un sy'n berthnasol i gyflymder y newid yn ogystal â maint y rôl sy'n cael ei chwarae gan Senedd y Deyrnas Unedig. Does gennym ni ddim pwerau i gynnig addasiadau a fyddai'n newid sylwedd y cwestiwn, neu gyflwyno ffactorau a allai newid natur y ddadl.

¹³ Symud i Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yw ystyr y refferendwm; mae'n rhoi pŵer i'r Cynulliad i lunio Deddfau'r Cynulliad, yn unol â'r amodau sydd wedi cael eu gosod yn Rhan 4 ac Atodlen 7 o'r Ddeddf.

¹⁴ Mae Atodlen 5 yn amlinellu'r hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gallu deddfu arnynt.

¹⁵ Mae Atodlen 7 yn amlinellu'r 20 pwnc yr hoffai'r Cynulliad Cenedlaethol allu deddfu arnynt, os bydd pobl yn pleidleisio 'Ydw' yn y refferendwm.

4.24 Fe wnaeth Yr Athro Jones grynhoi mater arall hefyd, yr oedd nifer o sylwadau wedi cyfeirio ato. Roedd yn pryderu'n fawr fod geiriad y cwestiwn arfaethedig yn camddarlunio natur y newid cyfansoddiadol oedd yn cael ei gynneg. Tynnwyd sylw at y ffaith, ar hyn o bryd, unwaith y bydd mater wedi'i gynnwys yn Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'r grym yn barod i ddeddfu arno heb fod angen 'cytundeb San Steffan' yn gyntaf. Roedd y geiriad presennol yn awgrymu ar gam na fyddai hyn yn digwydd heblaw bod pleidlais gadarnhaol yn y refferendwm.

4.25 Roedd Prif Weinidog Cymru a Dirprwy Brif Weinidog Cymru'n pryderu hefyd y gallai cynnwys y geiriau 'heb fod angen cytundeb Senedd y Deyrnas Unedig yn gyntaf' ar ddiwedd y cwestiwn roi'r argraff fod angen i'r Cynulliad, o dan y system bresennol ac, felly, os byddai pobl yn pleidleisio 'nac ydw', gael cytundeb y Senedd ar unrhyw ddeddfau a wna.

4.26 Atseiniwyd y barnau gan Lafur Cymru a Phlaid Cymru, a gyflwynodd bryderon tebyg i ni ynghylch cynnwys y geiriau hyn yn y cwestiwn.

4.27 Fe gynghorodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru mai bwriad cynnwys y geiriad hwn oedd dangos, mewn achos pleidlais 'ydw', na fyddai angen mynd drwy'r broses mwyach o gael cytundeb y Senedd i roi pwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gofynnodd i ni am ein barnau ar y pwynt hwn.

4.28 Dywedodd Yr Athro Jones y gallai weld beth oedd awduron y cwestiwn yn ceisio 'ei ddweud' wrth ddefnyddio'r geiriau 'heb fod angen cytundeb Senedd y Deyrnas Unedig yn gyntaf' yn y cwestiwn, ond fod angen edrych ar y mater eto.

4.29 Rydym yn cytuno fod angen edrych eto ar 'heb fod angen cytundeb Senedd y Deyrnas Unedig yn gyntaf' yn y cwestiwn. Mae ein hargymhellion ar ailddrafftio'r cwestiwn yn cyfeirio at y pwynt hwnnw.

4.30 Codwyd mater gan 'True Wales' ynghylch y ffaith fod gwahaniaeth mawr rhwng y term 'pŵer' a 'pwerau'. Yn eu barn nhw, dylai'r cwestiwn refferendwm fod ynghylch pŵer nid pwerau'r Cynulliad. Drwy ddefnyddio'r lluosog 'pwerau ychwanegol', roedd yn awgrymu y gallai hyn, ar ryw bwynt, gael ei ymestyn yn ehangach, hynny yw, cytuno y dylai swyddogaethau fel plismona gael eu trosglwyddo.

4.31 Er ein bod ni'n deall y pwynt sy'n cael ei wneud gan 'True Wales', rydym yn credu fod defnyddio'r term 'pwerau' yn gywir. Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad bwerau deddfu mewn perthynas â materion penodol mewn 20 maes sy'n cael eu nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru ac mae Deddf Llywodraeth Cymru'n eu galluogi nhw i ennill mwy o bwerau deddfu drwy fwy nag un llwybr. Yn ein barn ni felly, dylid cadw'r term 'pwerau'. Mae gan y gair 'pŵer' arwyddocâd gwahanol am ei fod yn cyfleu cryfder a phŵer, ond yn y cyd-destun hwn, roedd y bobl a holwyd yn ein hymchwil o farn y cyhoedd, yn deall y gair yng nghyd-destun y gallu i lunio deddf.

Esiamplau o 'feysydd sydd wedi'u datganoli'

4.32 Mae'r rhagarweiniad yn cynnwys esiamplau o 'feysydd sydd wedi'u datganoli'. Y rhain yw: iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol ac amgylchedd.

4.33 Ni wnaeth llawer o bobl a gysylltodd â ni sylwebu ar yr enghreifftiau a ddefnyddiwyd. Roedd nifer fechan o bobl yn pryderu ynghylch cyfreithlondeb y cwestiwn, a gyfeiriwyd ato eisoes, a'n pryderu fod defnyddio esiamplau ac nid y rhestr lawn o feysydd sydd wedi'u datganoli'n golygu na fyddai pobl yn gwybod dros beth oeddynt yn pleidleisio. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r rhai hynny oedd yn cysylltu â ni yn hapus i ddefnyddio esiamplau. Y tu hwnt i'r pwyntiau a godwyd ar gyfreithlondeb, doedd dim awgrym y dylid cynnwys y rhestr lawn o'r 20 maes y mae'r Cynulliad yn delio â nhw.

4.34 Yn wir, yn ein barn ni, mae angen cael cydbwysedd rhwng rhestru'r 20 maes sydd wedi'u datganoli (fel bod pleidleiswyr yn fwy gwybodus), a rhoi gormod o wybodaeth a fyddai'n llenwi'r papur pleidleisio ymhellach.

4.35 Drwy gynnwys pob un o'r 20 o'r meysydd sydd wedi'u datganoli, byddai meysydd sydd wedi'u datganoli'n rhoi pwyslais diangen ar y meysydd eu hunain; nid nifer neu gwmpas y meysydd sydd wedi'u datganoli yw pwnc y refferendwm hwn. Nid yw canlyniad y refferendwm, beth bynnag yw'r canlyniad, yn newid yr 20 o'r meysydd sydd wedi'u datganoli. Rydym yn gwerthfawrogi fod hyn yn golygu na fydd pleidleiswyr yn sicr ynghylch beth syn cael ei gynnwys yng nghwmpas y 'meysydd sydd wedi'u datganoli' - sut bynnag maen nhw'n cael eu disgrifio. Yn seiliedig ar y dystiolaeth rydym wedi'i gasglu, nid ydym yn credu fod angen cynnwys rhestr lawn o'r 20 o'r meysydd sydd wedi'u datganoli ar y papur pleidleisio, ac ni fyddai ychwaith yn gwella dealltwriaeth y pleidleisiwr o'r cwestiwn. Fodd bynnag, bydd rhestr o'r 20 maes sydd wedi'u datganoli yn cael eu cynnwys o few taflen wybodaeth l'r cyhoedd (gweler paragraff 2.17) ac ar gael ar ein gwefan, yn ogystal â bod ar gael ar safle we y Cynulliad. Byddwn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o sicrhau bod y wybodaeth yma ar gael i bleidleiswyr wrth iddynt fwrw eu pleidlais.

4.36 Dangosodd ein hymchwil o farn y cyhoedd fod pobl yn ystyried fod yr enghreifftiau yn y rhagarweinid yn gynorthwyol. Cyflwyniadol oedd yr anawsterau gyda'r esiamplau, gan y byddai'n well gan bobl fod wedi cael rhestr gyda bwledi. Yr eithriad i hyn oedd yr ymadrodd 'gwasanaethau cymdeithasol' (social services), nad yw'n gyffredin yn y Gymraeg. Roedd yn rhaid i nifer o'r rheini o gymerodd rhan yn ein gwaith ymchwil i gyfeirio i'r fersiwn Saesneg o'r cwestiwn er mwyn deall ystyr yr ymadrodd hwn.

4.37 Yn ein cynnig ar ailddrafftio'r cwestiwn rydym wedi bwledi'r rhestr o enghreifftiau ac nid ydynt wedi cynnwys 'gwasanaethau cymdeithasol'/'social services'.

4.38 Cododd 'True Wales' y pwynt y byddai pobl yn disgwyl gwasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill i gael eu cynnwys yn y rhestr o esiamplau, oherwydd mai'r rhain yw'r meysydd fwyaf adnabyddus y mae'r Cynulliad yn delio â nhw. Roeddynt o'r farn nad yw pobl yn sylweddoli o reidrwydd fod pynciau fel datblygu economaidd a diwylliant yn cael eu cynnwys hefyd.

4.39 Rydym yn cytuno y byddai cynnwys esiamplau o 'feysydd sydd wedi'u datganoli' ar wahân i'r gwasanaethau cyhoeddus yn dangos ystod ehangach o'r meysydd y mae'r Cynulliad yn delio â nhw. Fodd bynnag, dylai'r meysydd pwnc a ddefnyddir fel enghreifftiau fod yn rhai mae'r cyhoedd yn cydnabod ac yn deall. Rydym yn pryderu bod y termau 'datblygu economiadd' a 'diwylliant' ddim yn ddealladwy i nifer o'r cyhoedd. Rydym wedi cyfeirio at hyn yn ein hargymhellion ar ailddrafftio'r rhagarweiniad ac wedi awygrymu rhai enghreifftiau eraill y gellid eu defnyddio.

4.40 Roedd rhai pobl a ysgrifennodd atom, fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn teimlo hefyd y byddai'n gynorthwyol cynnwys enghreifftiau o'r meysydd hynny sydd ddim yn cael eu trafod gan bwerau'r Cynulliad. Roedd hyn yn bwynt pwysig hefyd a godwyd o'n hymchwil ymwybyddiaeth gyhoeddus; roedd gan bobl gamsyniadau ynghylch pwnc y refferendwm ac nid oedd y rhagarweiniad, fel yr oedd ar hyn o bryd, yn chwalu hyn. Yn arbennig, roedd pobl yn meddwl mai ystyr y refferendwm efallai, oedd rhoi pwerau codi treth i'r Cynulliad. Am y rhesymau hyn, rydym yn ystyried ei fod yn bwysig ystyried esiamplau o'r hyn nad yw'r Cynulliad yn delio â nhw yn ogystal ag esiamplau o'r hyn y mae'n delio â nhw.

4.41 Yn ein hargymhellion ar ailddrafftio'r rhagarweiniad, rydym wedi cynnwys enghreifftiau o'r hyn nad yw'r Cynulliad yn delio â nhw, yn cynnwys treth.

5 Hygyrchedd

5.1 Mater pwysig i ni wrth asesu pa mor ddealladwy yw'r cwestiwn arfaethedig yw pa mor hygyrch ydyw i bob pleidleisiwr. Mae defnyddio ymchwil barn y cyhoedd yn un o'r prif ffyrdd i ddod o hyd i hynny. Rydym hefyd wedi cael cyngor gan arbenigwyr ar hygyrchedd ac iaith blaen. Rhoddodd nifer o sefydliadau'r trydydd sector eu barnau i ni, ac rydym wedi ystyried y rhain yn gynorthwyol iawn wrth lunio ein hasesiad. Gweler crynodeb i ganlyn o'r prif bwyntiau a wnaethpwyd.

Iaith blaen

5.2 Rhoddodd The Plain English Campaign a'r Plain Language Commission nifer o awgrymiadau i ni ar gyfer gwella geiriad y cwestiwn, ac fe wnaeth y ddau ohonynt ganfod y geiriau a'r brawddegau y cafodd y bobl a gymrodd ran yn ein hymchwil o farn y cyhoedd anhawster gyda nhw hefyd.

5.3 Er bod y cynigion hyn yn berthnasol i fersiwn iaith Saesneg y cwestiwn, mae nifer yn berthnasol hefyd i'r fersiwn iaith Gymraeg. Er enghraifft, mae eu cynigion ynghylch defnyddio geiriau sy'n cael eu hailadrodd a chysondeb termau yn berthnasol i ddau fersiwn y cwestiwn.

5.4 Rhoddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyngor i ni ynghylch y cwestiwn iaith Gymraeg ac unwaith eto, roedd rhai o'i sylwadau yn berthnasol hefyd i'r fersiwn Saesneg. Yn fersiwn Gymraeg y cwestiwn fodd bynnag, daeth rhai materion i'r golwg hefyd oedd yn benodol i'r derminoleg a ddefnyddiwyd. Mae'r rhain yn cael eu hegluro isod lle bo'n berthnasol.

5.5 Yn arbennig, nododd yr ymgynghorwyr iaith blaen nad oedd y term 'meysydd sydd wedi'u datganoli' yn cael ei egluro, ac roeddynt yn rhagweld na fyddai'r rhan fwyaf o bobl yn deall hyn.

5.6 Fe dynnon nhw sylw hefyd at y ffaith fod y drydedd frawddeg ym mharagraff cyntaf y cwestiwn yn amwys a'n gymhleth. Gellir darllen 'Caiff y Cynulliad ennill mwy o bwerau', i olygu, 'sy'n gallu ennill rhagor o bwerau ar hyn o bryd' ac 'a allai ennill rhagor o bwerau yn y dyfodol'. Yn y cyd-destun, mae'n golygu nad yw'n glir p'un ai a yw'r frawddeg yn cyfeirio at y sefyllfa gyfredol neu p'un ai a yw'n golygu mai dyma fyddai'r sefyllfa pe byddai pobl yn pleidleisio 'ydw'.

5.7 Codwyd pwynt tebyg yn fersiwn iaith Gymraeg y cwestiwn. Dywedodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg y gallai'r gair 'Caiff' ('can' neu 'may') achosi cymhlethdod o bosib o ran p'un ai a yw'n cyfeirio at y sefyllfa gyfredol neu at y sefyllfa yn y dyfodol.

5.8 Gwnaeth nifer eraill o sefydliadau ac unigolion a gysylltodd â ni bwyntiau tebyg hefyd ynghylch y materion penodol hyn.

5.9 Sylwebodd nifer o'n hymatebwyr ar fater arall a ddaeth i'r amlwg yn ein hymchwil o farn y cyhoedd - defnyddio iaith sy'n swnio'n 'swyddogol'. Doedd pobl ddim yn hoffi hyn, ac nid oeddynt yn hoffi ychwaith y broses o ailadrodd enwau yn y termau 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad)' a 'Senedd y Deyrnas Unedig (Senedd)'. Ar y cyfan, roedd yn well gan bobl ddefnyddio termau sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin yn unig, fel 'y Cynulliad' a 'Senedd y DU'.

5.10 Yn gysylltiedig â hyn, roedd llawer o'r rhai hynny a wnaeth ymateb yn nodi sut roedd 'National Assembly for Wales' ac 'UK Parliament' wedi cael eu byrhau yn y fersiwn Saesneg i 'the Assembly' a 'Parliament'. Fodd bynnag, yn y fersiwn Gymraeg, mae 'Cynulliad Cenedlaethol' yn cael ei fyrhau i 'y Cynulliad' ond does dim cais yn cael ei wneud i symleiddio 'Senedd y Deyrnas Unedig'. Tybiwyd mai'r rheswm am hyn oedd i osgoi unrhyw gymhlethdod wrth ddefnyddio'r term Senedd (cartref Cynulliad Cenedlaethol Cymru), ond cynigiodd sawl person a wnaeth ymateb y gellid defnyddio 'Senedd y DU' yn ei le, gan fod DU eisoes yn dalfyriad sy'n cael ei ddefnyddio'n aml.

5.11 Cafwyd rhagor o feirniadaeth ynghylch y fersiwn iaith Gymraeg, a'i fod yn rhy hir a chymhleth. Casgliad Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y cwestiwn Cymraeg, o safbwynt y pleidleiswyr, yw 'nad yw'r sefyllfa bresennol yn ddigon clir' a 'nad yw'r sefyllfa a geisir yn ddigon eglur ac na fydd pleidleiswyr yn gallu pennu...union fanylion y newid a gynigir'. Mae eraill hefyd yn tynnu sylw at y ffaith fod prinder ffurfiau gramadegol cryno wedi arwain at gwestiwn hir diangen, ac y dylai'r rhai hynny sy'n drafftio'r cwestiwn geisio symleiddio'r cwestiwn gan ddefnyddio ffurfiau o'r Gymraeg sy'n cael eu defnyddio'n aml.

5.12 I orffen, cynigiodd Richard Wyn Jones, Cyfarwyddwr Canolfan Llywodraethu Cymru Prifysgol Caerdydd, y byddai defnyddio'r ffurf gryno 'datganoledig' ar gyfer 'devolved' yn hytrach na 'sydd wedi'u datganoli' (terminoleg sy'n cael ei ddefnyddio ar bum achlysur gwahanol yn y fersiwn Gymraeg) yn cynorthwyo i dorri rhywfaint ar hyd y cwestiwn.

5.13 Gwnaeth RNID Cymru'r pwynt pwysig fod gwella geiriad y cwestiwn i ddefnyddio geiriau sy'n rhan o iaith pob dydd yn gynorthwyol nid yn unig i bobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw ond hefyd i'r cyhoedd ehangach. Gall terminoleg gymhleth a thermau technegol greu cymhlethdod a gostwng dealltwriaeth i bleidleiswyr sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw ac i lawer o bobl eraill hefyd. Dylai'r rhai hynny sy'n drafftio'r cwestiwn osgoi defnyddio termau sydd angen eu hegluro ymhellach.

5.14 Roedd yr ymateb gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cynnwys nifer o bwyntiau a chynigion cynorthwyol oedd yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o sawl ffynhonnell, yn cynnwys y sefydliadau trydydd sector maen nhw'n gweithio gyda nhw, ac o sesiwn drafodaeth ar y refferendwm a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf, lle mynychodd dros 40 o bobl.

5.15 Roedd llawer o'r pwyntiau a godwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn adlewyrchu'r rhai hynny oedd yn deillio o'r ymchwil o farn y cyhoedd. Er enghraifft, roedd pobl a gymrodd ran mewn sesiwn wybodaeth a gynhaliwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn teimlo na fyddent wedi gallu deall a dehongli'r cwestiwn yn llwyr heb y wybodaeth bellach y derbynion nhw. Yn sicr, byddai pobl sydd ag anableddau dysgu angen llawer o gymorth i ddeall y cwestiwn.

5.16 Cawsom gyngor hefyd gan RNIB Cymru, RNID, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a The Pollen Shop ynghylch fformat y papur pleidleisio, yn cynnwys maint y ffont, y gofod rhwng llinellau, y defnydd o liw, y fformat a'r gosodiad. Cawsom gyngor hefyd gan Mr Bryn Parry Jones, Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol Senedd Ewrop a Chymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol Cymru ynghylch y materion hyn, yn seiliedig ar eu profiad o'r etholiad.

5.17 Nid ydym wedi cyfeirio at faterion dylunio o'r fath yn benodol yn yr adroddiad hwn, sy'n canolbwyntio ar ba mor ddealladwy yw'r cwestiwn. Fodd bynnag, fe wnawn ni ymateb i'r materion hynny drwy greu templed o bapur pleidleisio y bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn gallu dweud wrth y swyddogion cyfrif lleol i'w ddefnyddio. Bydd hyn yn sicrhau bod y papur pleidleisio yn edrych yr un fath trwy Gymru gyfan.

5.18 Bydd y Prif Swyddog Cyfrif (Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol) yn cynhyrchu templed o bapur pleidleisio a fydd, yn nhermau fformat a dyluniad, yn ei gwneud hi'n fwy rhwydd i bleidleiswyr i wneud eu marc yn y ffordd maen nhw wedi'i fwriadu. Bydd y Prif Swyddogion Cyfrif yn dweud wrth Swyddogion Cyfrif lleol i ddefnyddio'r templed, i sicrhau cysondeb ledled Cymru.

6 Ein hasesiad o'r cwestiwn

6.1 Rydym wedi ystyried y cwestiwn yn erbyn y canllawiau ar gyfer asesu cwestiynau refferendwm y cyhoeddwyd gennym ym mis Tachwedd 2009. Mae ein canllawiau wedi'u hatodi fel Atodiad C. Rydym wedi datblygu ein canllawiau er mwyn:

- ein cynorthwyo ni i asesu pa mor ddealladwy yw cwestiwn arfaethedig
- cynorthwyo pobl i ddrafftio cwestiynau refferendwm dealladwy.

6.2 Yn y cyd-destun hwn, mae 'cwestiwn' yn cynnwys y cwestiwn, yr ymatebion, a'r rhagarweiniad sy'n dod yn union cyn y cwestiwn.

6.3 Wrth lunio ein hasesiad, rydym wedi cymryd cyd-destun y cwestiwn refferendwm i ystyriaeth a'r holl dystiolaeth rydyn ni wedi'i dderbyn.

6.4 Mae ein canllawiau'n nodi y dylai cwestiwn refferendwm gyflwyno'r opsiynau yn glir, yn syml a'n niwtral. Felly dylai:

- fod yn rhwydd i'w ddeall
- fynd yn syth i'r pwynt
- fod yn amwys
- osgoi annog pleidleiswyr i ystyried un ymateb yn fwy ffafriol nag un arall
- osgoi camarwain pleidleiswyr

Ein casgliadau

6.5 Rydym yn sylweddoli nad yw'r rhagarweiniad i'r cwestiwn a geiriad y cwestiwn ei hun yn rhwydd i'w deall a'u bod nhw'n amwys.

6.6 Am y rhesymau hyn, mae gan y cwestiwn a'r rhagarweiniad y potensial i gamarwain pleidleiswyr. Yn ein barn ni, y rheswm am hyn yw diffyg eglurder a rhywfaint o amwysedd yn yr iaith a ddefnyddir yn hytrach nag unrhyw fwriad i gamarwain.

6.7 Ar y cyfan, roedd pobl yn meddwl fod gormod o eiriau yn y rhagarweiniad. Mae hyn yn troi pobl i ffwrdd ac ni fydd rhai pobl yn darllen y rhagarweiniad oherwydd bod gormod o eiriau'n cael eu cyflwyno iddyn nhw. Heb ddarllen y rhagarweiniad, nid ydynt yn gallu deall y cwestiwn. Mae hyn yn golygu nad yw'r cwestiwn a'r rhagarweiniad yn hygyrch i bob pleidleisiwr.

6.8 Fodd bynnag, mae pobl eisiau cael eglurhad o'r hyn mae gofyn iddynt bleidleisio drosto ac mae'n well ganddynt gael rhagarweiniad. Gwelwyd o'n hymchwil o farn y cyhoedd y byddai'n well gan bobl gael fformat sy'n fwy rhwydd i'w ddarllen, ar ffurf pwyntiau bwled, yn hytrach na beth sy'n ymddangos

fel paragraffau hir. Byddai'n well ganddynt gael paragraffau llai. Byddai'n well gan bobl ifanc yn arbennig, fformat sy'n fwy rhwydd i'w ddarllen.

6.9 Dylid cadw strwythur sylfaenol y rhagarweiniad, gyda'r cwestiwn yn dilyn. Yr hyn roedd pobl yn hoffi oedd:

- cael eglurhad o'r trefniadau cyfredol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i lunio deddfau.
- beth fydd yn digwydd os fydd pobl yn pleidleisio ydw
- beth fydd yn digwydd os fydd pobl yn pleidleisio nac ydw
- i'w ddilyn gan gwestiwn niwtral a phleidlais ydw/nac ydw

6.10 Y rhannau o'r rhagarweiniad a'r cwestiwn a achosodd anhawster arbennig oedd:

- Yn y fersiwn iaith Saesneg, pob defnydd o'r term 'devolved areas'.
- Yn y fersiwn iaith Gymraeg, cafwyd cymhlethdod tebyg gyda'r term 'meysydd sydd wedi'u datganoli' ar gyfer 'devolved areas'. Teimlwyd yn fawr na fyddai pleidleiswyr yn deall 'meysydd' (areas) yn y
- cyd-destun hwn, ac nad oedd 'datganoli' (devolved) yn derm oedd yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf o bobl.
- Yn nau fersiwn y cwestiwn, roedd trydedd frawddeg y rhagarweiniad, yn cychwyn 'Caiff y Cynulliad ennill mwy o bwerau...' yn gamarweiniol. Mae pobl yn meddwl fod hyn yn golygu 'sy'n gallu ennill rhagor o bwerau ar hyn o bryd' ac 'a allai ennill rhagor o bwerau yn y dyfodol'. Mae hyn yn golygu nad yw'n glir p'un ai a yw hyn ynghylch pwerau deddfu cyfredol y Cynulliad, neu p'un ai a dyma fyddai'r sefyllfa pe byddai'r rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio ydw yn y refferendwm.
- Mae terminoleg sy'n swnio'n swyddogol yn anodd i bobl ei ddeall, yn enwedig pan mae'n cael ei ailadrodd. Er enghraifft, 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad)' a 'Senedd y Deyrnas Unedig (Senedd)'.
- Mae'r anghysondeb yn y geiriad yn arwain at gymhlethdod. Mae'r brawddegau 'a hynny fesul pwnc' a 'bob yn damaid' i fod i olygu'r un peth ond mae'r geiriad gwahanol yn arwain pobl i feddwl y gallai fod gwahaniaeth.
- Cwestiynwyd defnyddio 'bob yn damaid' (ar gyfer 'bit by bit') gan lawer yn yr ymchwil iaith Gymraeg o farn y cyhoedd, ac ni theimlwyd ei fod yn derm cyfarwydd. Ar y llaw arall, cwestiynwyd defnyddio 'bit by bit', gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei ymateb, ond ni chafwyd gwrthwynebiad ar gyfer defnyddio 'bob yn damaid'.
- Ystyriwyd fod defnyddio 'trwy gael cytundeb gan Senedd y Deyrnas Unedig a hynny fesul pwnc' yn y paragraff cyntaf; gyda chytundeb Senedd y Deyrnas Unedig bob tro' yn yr ail baragraff a 'heb fod angen cytundeb Senedd y Deyrnas Unedig yn gyntaf' yn y cwestiwn yn cael eu hailadrodd a'n ddryslyd oherwydd ceir geiriad tipyn yn wahanol bob amser. Gall yr ailadrodd hefyd beri i bobl feddwl bod y pwynt yn cael ei wthio a'i fod rywfaint yn arweiniol.

- Yn gyffredinol, nid yw pobl yn hoffi gweld rhywbeth yn cael ei ailadrodd yn y cwestiwn, ac enghraifft o hyn yw cyflwyno'r ymateb 'anghytuno' yn y cwestiwn. Roeddynt yn ei weld fel ailadrodd yr hyn oedd eisoes ym mharagraff cyntaf y rhagarweiniad, gyda geiriad tipyn yn wahanol.

Yr ymatebion

6.11 Mae pobl yn teimlo fod geiriad y cwestiwn yn nhermau 'Ydych chi'n cytuno ...' yn eithaf arweiniol. Roeddynt yn teimlo ei fod yn awgrymu 'Ydych chi'n cytuno gyda fi' a'i fod yn fwy anodd dweud 'Nac ydw, dydw i ddim yn cytuno' yn hytrach na dweud 'Ydw, rydw i'n cytuno'. O ganlyniad, rydym yn argymhell geiriad mwy niwtral.

6.12 Yn ein barn ni, mae dileu unrhyw beth sy'n cael ei weld fel rhagfarn, yn flaenoriaeth. Y geiriad mwyaf niwtral, yn ein barn ni, yw cwestiwn sy'n cychwyn gyda 'A ddylai'r Cynulliad... ayb'. Mae 'dylai' yn wrthrychol ac nid yw'n cynnwys mynegiant o farn y pleidleiswyr, o'i gymharu â geiriad megis 'Ydych chi'n meddwl' neu 'Ydych chi'n credu'.

6.13 Os defnyddir y geiriad 'A ddylai'r Cynulliad... ayb', yr ateb yn Saesneg fyddai 'Yes' neu 'No', yn Gymraeg 'Dylai' neu 'Ni ddylai'.

6.14 Fodd bynnag, mae anfantais sylweddol i hyn yn fersiwn iaith Gymraeg y cwestiwn. Mae defnyddio 'Should' yn y fersiwn Saesneg yn golygu y byddai'r cwestiwn Cymraeg yn newid i 'A ddylai'r Cynulliad gael pwerau yn awr...'. Byddai newid y fersiwn Gymraeg fel hyn yn effeithio ar yr ateb. Ni fyddai'n bosib defnyddio 'Ydw/Nac Ydw' syml a'n hytrach, byddai angen i'r ateb iaith Gymraeg fod yn 'Dylai' (It should) neu 'Ni ddylai' (It should not).

6.15 Er gwaetha'r ffaith y byddai ateb iaith Gymraeg 'Dylai/Ni ddylai' yn wahanol i'r dewis 'Yes/No' sy'n cael ei ddarparu yn y cwestiwn Saesneg, o ystyried popeth, byddai'n well defnyddio 'Dylai' yn y Saesneg a'r Gymraeg. Mae'n cael gwared ag unrhyw ragfarn posib a'n parhau i fod yn ddealladwy.

6.16 Fodd bynnag, byddai'r prif anhawster yn codi gydag ymgyrchu ar gyfer y refferendwm. Mae'r ymgyrchoedd yn debygol o gael eu geirio fel 'Yes' a 'No' ac yn ddelfrydol, y Gymraeg fyddai 'Ydw' a 'Nac Ydw'. Nid yw 'Dylai' ac 'Ni ddylai' yn debygol o weithio'n dda fel sloganau ymgyrchu, a byddent yn tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng ymatebion y cwestiwn yn y ddwy iaith. Mae dull amgen ar gael, sef cael sloganau ymgyrchu sy'n defnyddio 'Yes/Ydw' a 'No/Nac Ydw', er gwaetha'r dewisiadau gwahanol ar y papur pleidleisio. Gallai hyn greu cymhlethdod i bleidleiswyr pan cant eu cyflwyno gyda phapur pleidleisio sy'n cyflwyno'r opsiynau 'Dylai' a 'Ni ddylai' o ymateb. Nid yw'r effeithiau wedi cael eu profi, ac maen nhw'n cyflwyno risg.

6.17 Cwestiwn arall sydd yr un mor niwtral yw: 'Ydych chi eisiau i'r Cynulliad...ayb'. O'i gymharu â 'Dylai', mae'n cynnwys mynegiant o ddymuniadau'r pleidleiswyr yn hytrach na mynd yn syth at y pwnc dan sylw.

6.18 Mae gan y geiriad hwn y fantais ei fod yn gallu cael ei ateb yn y Saesneg a'r Gymraeg gydag 'Yes/Ydw' neu 'No/Nac Ydw' syml. Mae hyn yn golygu y bydd yr ymgyrchoedd yn y ddwy iaith yr un fath, ac y bydd yr ymatebion yn y ddwy iaith yn adlewyrchu ei gilydd yn fwy amlwg.

6.19 Fodd bynnag, dylid cyfeirio at ragor o fanteision yn fersiwn Cymraeg y cwestiwn os defnyddir 'Do you want...' mewn Saesneg. Cyfieithiad llythrennol o 'Do you want' yn y Gymraeg yw 'Ydych chi eisiau...'. I'r mwyafrif o Gymry Cymraeg, bydd hyn yn cyfleu mwy o anffurfioldeb nag y byddai 'Ydych chi eisiau' yn Saesneg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi ein hysbysu bod 'Eisiau' yn enw yn y Gymraeg, yn hytrach na berf, felly mae adeiladwaith cyffredin y geiriad wrth siarad yn anghywir.

6.20 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi'n cynghori ni mai'r hoff eiriad fyddai: 'A ydych chi yn dymuno i'r Cynulliad...'. Er bod hyn yn cyfieithu'n llythrennol i'r Saesneg fel 'Do you wish/desire the Assembly...' mae hyn yn cael ei ffafrio.

6.21 O ganlyniad, mae ein hargymhellion ar gyfer ailddrafftio'r ymatebion yn seiliedig ar y ffactorau hyn.

Ein hargymhellion

6.22 Mae ein hasesiad yn golygu fod rhaid i rai geiriau, brawddegau a therminoleg benodol gael eu hailddrafftio os yw'r cwestiwn yn mynd i gael ei ddeall gan bleidleiswyr.

6.23 Dylai'r rhagarweiniad gynnwys llai o eiriau ac mae'n rhaid i'r fformat fod yn fwy rhwydd i'w ddarllen a bod yn fwy hygyrch.

6.24 Oherwydd bod yr holl faterion hyn yn cysylltu â'i gilydd, yn hytrach nag argymell rhannau o eiriad neu amrywiaethau mewn terminoleg, rydym wedi cymryd y cam o gynnig y posibilrwydd y gallai'r rhagarweiniad a'r cwestiwn gael eu hailddrafftio. Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw penderfynu ar geiriad y cwestiwn sy'n cael ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth i'w rhoi gerbron Senedd y DU a'r Cynulliad. Rydym wedi ceisio cynnig awgrymiadau adeiladol ac yn gobeithio bod rhain yn ddefnyddiol i'r Ysgrifennydd Gwladol wrth wneud ei phenderfyniad.

6.25 Bwriad yr ailddrafftio yw dangos sut fyddai'n bosib cyfeirio at yr anawsterau rydym wedi'u canfod gyda'r drafft cyfredol. Fel y bydd yr adroddiad hwn wedi dangos, nid yw drafftio cwestiwn ar gyfer y refferendwm hwn yn rhwydd o bell ffordd. Mae barnau amrywiol a cryf uwch sylwebwyr gwleidyddol ac academwyr yn golygu nad yw'n debygol o ennill cefnogaeth gan bawb, pa bynnag gwestiwn sy'n cael ei ddrafftio. Mae sylwebwyr wedi mynd trwy'r drafft cyfredol gyda chrib mân, ond ni fyddai unrhyw gynigion cyflawn a gyflwynwyd i ni yn gallu denu rhagor o gefnogaeth na chael ei ddeall gan bleidleiswyr.

6.26 Mae cymhlethdod y pwnc yn golygu ei fod yn anodd drafftio mewn iaith pob dydd sy'n hygyrch i'r holl bleidleiswyr.

6.27 Wrth baratoi ein proses o ailddrafftio'r cwestiwn, nid yw wedi bod yn bosib profi rhai o'r brawddegau gyda defnyddwyr rydym wedi'u defnyddio neu i brofi ein cynigion amgen ar gyfer ymatebion y cwestiwn. Ni chafwyd llawer o amser i gynnal yr ymchwil. Er bod ein hymchwil o farn y cyhoedd wedi cynnwys gofyn i bobl oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil am gynigion amgen, ni dderbyniwyd llawer. Er enghraifft, doedd pobl ddim yn gallu cynnig rhywbeth arall ar gyfer 'meysydd sydd wedi'u datganoli', gan mai dim ond dipyn o bobl oedd yn deall ystyr y termau hyn. Mae cymhlethdod y pwnc yn ei gyfanrwydd yn golygu nad oed pobl yn gallu nodi sut fyddai'n well ganddynt i'r cwestiwn gael ei ail-eirio. Rydym wed ceisio, cyn belled â phosib, i seilio ein fersiwn wedi'i hailddrafftio ar y dystiolaeth rydym wedi'i gasglu.

6.28 Mae ein fersiwn wedi'i hailddrafftio'n cynnwys:

- Penawdau i egluro beth sy'n dilyn ac i dorri'r testun ar y dudalen.
- Iaith pob dydd sy'n gyfarwydd i'r rhan fwyaf o bobl, yn hytrach nag iaith ffurfiol sy'n cael ei ddefnyddio mewn dogfennau swyddogol. Er enghraifft, rydym wedi defnyddio 'Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd' yn hytrach na 'Trefniadau cyfredol/presennol'.
- Osgoi amwysedd. Er enghraifft, rydym wedi defnyddio 'Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd' yn hytrach na 'Beth sy'n digwydd nawr' gan y gellid darllen hynny i olygu 'nawr, yn y cwpwl o funudau nesaf' (tra bo'r pleidleisiwr yn pleidleisio).
- Bold i bwysleisio'r gwahaniaethau pwysig.
- Pwyntiau bwled i greu rhestr o esiamplau o'r 20 maes pwnc y mae'r Cynulliad yn gyfrifol drostynt, i'w gwneud yn rhwydd i'w darllen.
- Rhestr o esiamplau o'r 20 maes pwnc. Rydym wedi cynnwys yr enghreifftiau a ddefnyddiwyd yn y cwestwin gwreiddiol, ond wedi symud 'gwasanaethau cymdeithasol' gan body n ein ymchwil ni yn dangos nad oedd hyn yn hawdd i'w ddeall yng Nghymraeg. Rydym yn awyddus i gynnwys pynciau ychwanegol i adlewyrchu bod natur y pynciau yn ehangach na'r gwasanaethau cyhoeddus yn unig. Ni fydd terminoleg yr 20 maes pwnc, fel 'datblygu economaidd' yn rhwydd i'r rhan fwyaf o bobl i ddeall. Gallai fod yn gamarweiniol, fodd bynnag, i newid disgrifiadau'r 20 pwnc a osodwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu body n hawsach i'w deall. Mae hyn yn golygu fod angen cyfaddawdu o ran defnyddio esiamplau y bydd pleidleiswyr yn eu deall, bod yn gywir ac nid yn gamarweiniol, a dangos ystod o bynciau gwahanol. Yn seiliedig ar hyn, rydym wedi awgrymu ychwanegu 'amaethyddiaeth' a 'tai' i'r rhestr.
- Cynnwys y rhestr yn nhrefn y wyddor, ar gyfer amhleidioldeb.
- Esiamplau o bynciau nad yw'r Senedd yn gyfrifol amdanynt sydd wedi'u rhestru'n ôl trefn y wyddor, i gael gwared â'r camsyniadau oedd yn amlwg yn ein hymchwil o farn y cyhoedd.
- Peidio ag ailadrodd gormod, dim ond i atgyfnerthu pwynt lle bo angen. Os oes angen ailadrodd, mae angen defnyddio iaith gyson.

6.29 Nid yw ein hailddrafftio'n cynnwys:

- Rhestr lawn o'r 20 maes pwnc.
- Rhestr o'r materion hynny y gall y Cynulliad ddeddfu arnynt ar hyn o bryd heb ofyn am gymeradwyaeth gan y Senedd ac, yn yr un modd, y materion hynny y mae angen i'r Cynulliad gael cymeradwyaeth gan y Senedd yn eu cylch cyn deddfu arnynt.
- Cyfeirio'n benodol at Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ein barn ni, does dim rhaid cyfeirio i ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y cwestiwn yn gyfriethlon.

6.30 Ein blaenoriaeth drwy'r cyfan oedd cael cwestiwn oedd pleidleiswyr yn gallu deall, fel eu bod nhw'n gwybod am beth maen nhw'n pleidleisio. Rydym yn argymhell yn gryf y dylai ffurf derfynol y cwestiwn gael ei eirio gyda hynny mewn golwg.

6.31 I ganlyn, gweler ein cynnig ar gyfer ailddrafftio yng Nghymraeg a Saesneg

Suggested redraft (English)

The National Assembly for Wales: what happens at the moment

The Assembly has powers to make laws on 20 subject areas, such as:

- agriculture
- the environment
- housing
- education
- health
- local government

In each subject area, the Assembly can make laws on **some** matters, but not others. To make laws on any of these other matters, the Assembly must ask the UK Parliament for its agreement. The UK Parliament then decides each time whether or not the Assembly can make these laws.

The Assembly cannot make laws on subject areas such as defence, tax or welfare benefits, whatever the result of this vote.

If most voters vote 'yes'

The Assembly will be able to make laws on **all** matters in the 20 subject areas it has powers for, without needing the UK Parliament's agreement.

If most voters vote 'no'

What happens at the moment will continue.

Question

Do you want the Assembly now to be able to make laws on **all** matters in the 20 subject areas it has powers for?

Yes

No

Suggested redraft (Welsh)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd

Mae gan y Cynulliad y pwerau i lunio deddfau mewn 20 maes pwnc, megis:

- amaethyddiaeth
- yr amgylchedd
- tai
- addysg
- iechyd
- llywodraeth leol

Mae'r Cynulliad yn gallu llunio deddfau ar **rai** materion ym mhob maes pwnc ond nid ar faterion eraill. Er mwyn llunio deddfau ar unrhywun o'r materion eraill hyn, mae'n rhaid i'r Cynulliad ofyn am gytundeb Senedd y DU. Yna, mae Senedd y DU yn penderfynu bob tro a gaiff y Cynulliad lunio'r deddfau hyn neu beidio.

Ni all y Cynulliad lunio deddfau mewn meysydd pwnc fel amddiffyn, trethi neu fudd-daliadau lles, beth bynnag fo canlyniad y bleidlais hon.

Os bydd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn pleidleisio 'ydw'

Bydd y Cynulliad yn gallu llunio deddfau ar **bob** mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt, heb orfod cael cytundeb Senedd y DU.

Os bydd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn pleidleisio 'nac ydw'

Bydd yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn parhau.

Cwestiwn

A ydych yn dymuno i'r Cynulliad allu llunio deddfau ar **bob** mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt?

Ydw

Nac ydw

Atodiadau

Atodiad A 'Datganiad a chwestiwn blaenorol' y bu Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ymgynghori â ni amdano.

Atodiad B 'Ein dull o asesu pa mor ddealladwy yw cwestiynau refferendwm' a 'Canllawiau ar asesu cwestiwn refferendwm' Y Comisiwn Etholiadol, Tachwedd 2009

Atodiad C Rhestr o bleidiau sydd â diddordeb a roddodd eu barnau i ni drwy ohebiaeth neu mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar gyfer y diben

Atodiad A ‘Datganiad a chwestiwn blaenorol’ y bu Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ymgynghori â ni amdano

Refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Referendum on law-making powers of the National Assembly for Wales

Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol (y Cynulliad) y pwerau i ddeddfu ar gyfer Cymru ar rai pynciau mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Mae'r meysydd sydd wedi'u datganoli yn cynnwys iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol a'r amgylchedd. Caiff y Cynulliad ennill mwy o bwerau i ddeddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli trwy gael cytundeb gan Senedd y Deyrnas Unedig, a hynny fesul pwnc.

At present, the National Assembly for Wales (the Assembly) has powers to make laws for Wales on some subjects within devolved areas. Devolved areas include health, education, social services, local government and environment. The Assembly can gain further powers to make laws in devolved areas with the agreement of the Parliament of the United Kingdom (Parliament) on a subject by subject basis.

Os bydd y rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio 'Ydw' yn y refferendwm hwn, bydd y Cynulliad yn ennill pwerau i ddeddfu ar bob pwnc yn y meysydd sydd wedi'u datganoli. Os bydd y rhan fwyaf yn pleidleisio 'Nac Ydw', bydd y trefniadau presennol - sef trosglwyddo'r hawl i ddeddfu bob yn ddaid, gyda chytundeb Senedd y Deyrnas Unedig bob tro - yn parhau.

If most people vote Yes in this referendum, the Assembly will gain powers to pass laws on all subjects in the devolved areas. If most people vote No, then the present arrangements, which transfer that law-making power bit by bit, with the agreement of Parliament each time, will continue.

Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cynulliad gael pwerau yn awr i ddeddfu ar yr holl bynciau yn y meysydd sydd wedi'u datganoli heb fod angen cytundeb Senedd y Deyrnas Unedig yn gyntaf?

Do you agree that the Assembly should now have powers to pass laws on all subjects in the devolved areas without needing the agreement of Parliament first?

RHOWCH X MEWN UN BLWCH YN UNIG

PUT AN X IN ONE BOX ONLY

Ydw, rydw i'n cytuno - Yes, I agree

Nac ydw, dydw i ddim yn cytuno - No, I do not agree

Referendum question assessment guidelines

By law, the Electoral Commission must comment on the intelligibility of UK, national and regional referendum questions, and some local government referendum questions.¹ In this context, we mean referendums where voters are asked to vote on a proposal put forward by government. At this type of referendum, voters are given a ballot paper that contains the question and at least two possible responses to choose from.²

We have developed these guidelines to:

- help us assess how intelligible a proposed question is
- help people draft intelligible referendum questions

In this context, 'question' includes the question, the responses, and any statement that comes immediately before the question.

Guidelines for assessing referendum questions

A referendum question should present the options clearly, simply and neutrally. So it should:

- be easy to understand
- be to the point

Democracy matters

- be unambiguous
- avoid encouraging voters to consider one response more favourably than another
- avoid misleading voters

Checklist

We will use the following checklist to help us assess how intelligible a question is.

- Is the question written in plain language? That is, language that:
 - uses short sentences (around 15–20 words)
 - is simple, direct, and concise
 - uses familiar words, and avoids jargon or technical terms that would not be easily understood by most people
- Is the question written in neutral language, avoiding words that suggest a judgement or opinion, either explicitly or implicitly?
- Is the information contained in the question factual, describing the question and the options clearly and accurately?
- Does the question avoid assuming anything about voters' views?

¹ Under the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000.

² How many responses voters can vote for depends on the voting system used at that referendum.

Feedback

Please contact:
Christie Dennehy
The Electoral Commission
Trevelyan House,
Great Peter Street
London SW1P 2HW

Tel: 020 7271 0500
Fax: 020 7271 0505
Email: cdennehy@electoralcommission.org.uk

www.electoralcommission.org.uk

Translation and other formats

For information on obtaining this publication in another language or in a large-print or Braille version please contact the Electoral Commission:

Tel: 020 7271 0500
Email: publications@electoralcommission.org.uk

Our approach to assessing the intelligibility of referendum questions

Our responsibilities

A referendum gives the public the opportunity to vote on a proposal put forward by government.¹ If a referendum is going to take place, a piece of legislation is written containing the proposed question. The law requires us to publish our views on the intelligibility of proposed questions for UK-wide, national or regional referendums.² The UK Government must also consult us on the intelligibility of proposed questions for local referendums in England and Wales on the way local authorities are run.³

This statement sets out the approach we will take to assess the intelligibility of referendum questions, including the timetable for this work.

Our aim and approach

Our aim is to look at a proposed question from the perspective of voters,⁴ to see if it is written in a way that means they are likely to understand it. This includes whether or not they can understand how to answer it. It is important that voters can mark their ballot papers easily, and that they are confident that they

have voted the way they intended to. Governments may make important decisions based on the outcome of a referendum, and so that outcome needs to be an accurate reflection of what voters want. This means that the question should present the options to voters clearly, simply and neutrally.

We have produced some referendum question guidelines that set out the criteria we will use to assess how intelligible a question is (see our referendum question guidelines).⁵ As well as looking at the question ourselves, we will gather evidence to help us with our assessment. This will include:

- carrying out research with the public (see next section for more details)
- asking for advice from experts on accessibility and plain language
- talking to other people, for example political parties and campaign groups associated with the referendum, and other key groups or individuals who have an interest in the referendum and its outcome

We will publish the research reports and a summary of the other evidence we have gathered and used in our assessment.

Research with the public

Because we want to look at whether or not voters can understand a proposed referendum question, we would need to get evidence of this from voters themselves. The best way for us to get this evidence is by carrying out research to see how people react to and understand the question, and we would want to do this for any referendum question we are asked to assess.

The research would usually be done through focus groups and one-to-one interviews. This type of research will help us to find out people's understanding of a proposed referendum question, their attitudes towards it, and the reasons why they think or feel the way they do about it. It also helps to explain why people may find a question easy or difficult to understand, and to

Democracy matters

explore how the question could be made more intelligible. The research would focus on the question itself and how it is written, rather than on how people would vote.

We would include a wide range of people in the research, so that we can get the views of people with different backgrounds (e.g. people of different ages, gender, and levels of education), or people who live in different places.

Timetable

We should be able to publish our views on the intelligibility of a proposed referendum question around 10 weeks after finding out what the question is. This includes eight weeks to carry out public opinion research, based on getting at least two weeks' notice of the date when we will be given the exact wording of the question. We will do as much advance preparation as we can for the research – which is the part of our evidence-gathering that will take the longest – so that we can make sure it is completed as quickly as possible.

- 1 This statement only covers referendums on proposals put forward by governments, although referendums can be held on other issues. By 'government' we mean the UK Government, the Scottish Government, the Welsh Assembly Government or the Northern Ireland Executive.
- 2 The requirement is set out in the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (PPERA). Our responsibility relates to referendums held under the framework of PERA.
- 3 Under Section 45 (8A)–(8D) of the Local Government Act 2000, inserted by Schedule 21 of PERA.
- 4 By 'voters' we mean people who would be eligible to vote in that referendum.
- 5 We produced our original guidelines in 2002 and have recently reviewed and updated them. The guidelines are available at www.electoralcommission.org.uk/elections/referendums

Feedback

Please contact:
Christie Dennehy
The Electoral Commission
Trevelyan House,
Great Peter Street
London SW1P 2HW

Tel: 020 7271 0500
Fax: 020 7271 0505
Email: cdennehy@electoralcommission.org.uk

www.electoralcommission.org.uk

Translation and other formats

For information on obtaining this publication in another language or in a large-print or Braille version please contact the Electoral Commission:

Tel: 020 7271 0500
Email: publications@electoralcommission.org.uk

We are an independent body that was set up by the UK Parliament. Our aim is integrity and public confidence in the democratic process. We regulate party and election finance and set standards for well run elections. For more information see www.electoralcommission.org.uk

**The
Electoral
Commission**

Atodiad C: Rhestr o ymatebion

Rhoddodd yr unigolion / sefydliadau canlynol eu barnau i ni drwy ohebiaeth neu mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar gyfer y diben.

Enw	Sefydliad
Phil Johnson / Peter Woodward	Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol Cymru
Rhys George	Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol Cymru
John Osmond	Sefydliad Materion Cymreig
Warwick Nicholson	UKIP Cymru
Gwenllian Lansdown	Plaid Cymru
Sarah Rochira	RNIB Cymru
Richard Williams	RNID Cymru
Cynog Dafis	
Diane Banner/ Rachel Banner/ Stephen Senior	True Wales
Graham Benfield	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Yr Athro Richard Wyn Jones	Canolfan Llywodraethu Cymru
Chris Roberts	Plaid Lafur Cymru
Gwyn Jones	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Steve Thomas	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Bryn Parry Jones	Cyngor Sir Benfro
Syr Emyr Jones Parry GCMG	Confensiwn Cymru Gyfan
Yr Athro Keith Patchett	
Yr Athro Laura McAllister	Prifysgol Lerpwl
Alan Trench	Prifysgol Caeredin
Gwilym Morris	The Pollen Shop
Ruth Thornton / Martin Cutts	Plain Language Commission
Tony Maher	Plain English Campaign
Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC / Ieuan Wyn Jones AC	Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cysylltu â ni

Ein Prif Swyddfa

The Electoral Commission
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Tel: 020 7271 0500
Fax: 020 7271 0505
Textphone: 18001 020 7271 0500
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Swyddfa Cymru

Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ Caradog
1–6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE
Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk

The Electoral Commission
Eastern and South East Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Tel: 020 7271 0600
Fax: 020 7271 0505
Textphone: 18001 020 7271 0600
easternandsoutheastoffice
@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
London Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Tel: 020 7271 0689
Fax: 020 7271 0505
Textphone: 18001 020 7271 0689
london@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Midlands Office, No 2 The Oaks
Westwood Way, Westwood Business Park
Coventry CV4 8JB
Tel: 02476 820086
Fax: 02476 820001
Textphone: 18001 02476 820086
midlands@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
North of England Office
York Science Park
IT Centre
Innovation Way
Heslington
York YO10 5NP
Tel: 01904 567990
Fax: 01904 567719
Textphone: 18001 01904 567990
north@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
South West Office
Regus, 1 Emperor Way
Exeter Business Park
Exeter EX1 3QS
Tel: 01392 314617
Fax: 01392 314001
Textphone: 18001 01392 314617
southwest@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW

Ffôn: 020 7271 0500
Ffacs: 020 7271 0505

info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Mae manylion cyswllt ar gyfer ein
swyddfeydd yn yr Cymru a rhanbarthau
Lloegr tu fewn i glawr cefn yr adnodd hwn.

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan
Senedd y DU. Ein nod yw hygrededd y
broses ddemocrataidd a hyder y cyhoedd
ynnddi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau
ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer
etholiadau a gynhelir yn dda.

Mae democratiaeth yn cyfrif